



Achub Bywydau yng Nghymru: Camau Gweithredu ar gyfer Lywodraeth Cymru i atal Salwch yn y Gweithle

Adroddiad gan Gymdeithas Hyllendid Galwedigaethol
Prydain, y Gymdeithas Siartredig er Diogelu Iechyd
Gweithwyr

Trosolwg

Mae yna argyfwng o ran salwch yn y gweithle yn y Deyrnas Unedig (DU) ac mae'r argyfwng hwnnw yn waeth yng Nghymru na chenhedloedd eraill. Mae gan Lywodraeth Cymru y grym cyfreithiol a'r ddyletswydd i ddylanwadu ar ganlyniadau salwch o fewn y gweithle. Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos yn ystod y pandemig eu gallu i amddiffyn iechyd o fewn y gweithle. Mae'r Adroddiad hwn yn amlygu'r meysydd hynny y gall ac y dylai'r Llywodraeth weithredu arnyn nhw i arbed bywydau yng Nghymru. Drwy wneud hynny gall sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy a Chymru iachach a thecach.

**Pam na ellir
anwybyddu'r
adroddiad hwn?**

Mae'r argyfwng o ran diogelu iechyd yn y gweithle yng Nghymru yn tansellio ei chynnydd cymdeithasol ac economaidd. Ar y llaw arall fe ellir dadlau ei bod yn haws i'w atal drwy eu gallu i ddefnyddio'r pwerau a ddatganolwyd i'r Senedd.

Mae 76,000 o ferched a dynion Cymru yn dioddef o salwch o ganlyniad i'w gwaith er eu bod yn afiechydol y gellid bod wedi eu hatal. Mae cost uniongyrchol y salwch yma dros £500 miliwn y flwyddyn i Gymru. Ar wahân i'r gost i'r unigolion hynny - o golli iechyd i golli'r sgiliau a wastraffwyd - mae costau anuniongyrchol ychwanegol hefyd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, effeithiau ariannol a chostau ychwanegol i fusnesau sy'n llai effeithiol. Mae hyn oll yn golygu bod cyfanswm o 1.6 miliwn o ddiwrnodau o waith yn cael eu colli.

Mae'r Adroddiad yn canolbwyntio ar y camau gweithredu hynny sy'n gallu gwneud gwahaniaeth. Mae'r Adroddiad yn canolbwyntio ar achub bywydau mewn tri maes allweddol sef dod i gysylltiad ag asbestos, a lleihau baich afiechyd yn y sectorau Adeiladu ac Amaethyddol.

Mae'r effaith yn waeth yng Nghymru nag yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig (DU). Mae anweithgarwch economaidd yn cynyddu yng Nghymru. Mae salwch hirdymor yn gyfrifol am bron i 40% o'r dynion sy'n economaidd anweithgar tra bod 30% o ferched yn economaidd anweithgar o ganlyniad i salwch hirdymor.

Mae o leiaf hanner y salwch hwn fodd bynnag o ganlyniad i salwch yn y gweithle y gellir ei atal. Yn waeth na hynny, mae'r baich yn disgyn yn drymach ar ferched na dynion. Yn seiliedig ar ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae 7% o'r gweithlu gwrywaidd posibl yng Nghymru yn economaidd anweithgar o ganlyniad i salwch galwedigaethol tra bod y canran yn syfrdanol felly yn cynyddu i 13% ar gyfer merched.

Nid yn unig y mae'r argyfwng hwn o fewn cymhwysedd cyfreithiol Llywodraeth Cymru mae hefyd wedi'i gynnwys o fewn ei rôl gyfansoddiadol. Mae'r Adroddiad yn tynnu sylw at enghreifftiau o gamau fforddiadwy i gyflawni llawer o'r canlyniadau hollbwysig a amlinellir o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mewn gwirionedd, mae'r Deddfau hyn yn golygu bod y rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati i ystyried y materion, yr ymatebion a'r atebion a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

Nid yw Cymru yn gallu dibynnu ar ymyrraeth reoleiddiol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) a gadael diogelu iechyd yn y gweithle i'r pwerau a ddaliwyd yn ôl gan Lywodraeth San Steffan. Mae gan Lywodraeth Cymru'r pŵer a'r potensial i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r Adroddiad hwn yn amlinellu meysydd gweithredu o fewn cyfrifoldeb unigryw Llywodraeth Cymru. Mae'n gosod nodau penodol y gall Cymru eu cyflawni'n uniongyrchol. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn gweithredu yn y meysydd hyn, nid oes neb arall ar fai.

Mae amddiffyn pobl rhag salwch y gellir ei atal yn y gweithle yn rhan annatod o dargedau uchelgeisiol Llywodraeth Cymru i gyrraedd safonau rhyngwladol a nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mabwysiadwyd yr hawl i Amgylchedd Gwaith Iach yn ddiweddar gan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol ac mae mesur newydd o salwch galwedigaethol ar waith drwy Sefydliad Iechyd y Byd. Mae'r datblygiadau byd-eang hyn yn gofyn am o leiaf ailystyried systematig o'r hyn y mae llywodraeth Cymru yn ei wneud yn y maes hwn.

Heb amddiffyniad iechyd effeithiol yn y gweithle, bydd dynion a merched Cymru yn marw wrth geisio cyflawni amcanion newid hinsawdd. Mae gwella ein stoc adeiladau yn debygol o arwain at y cynnydd mwyaf ers degawdau yn yr achosion hynny o ddod i gysylltiad ag asbestos. Dod i gysylltiad ag asbestos yw'r prif achos ar gyfer canser galwedigaethol o hyd. Gwelwyd lleihad arafach yng Nghymru na gweddill y DU yn yr achosion hynny o ganser o ganlyniad i fod mewn cyswllt ag asbestos. Bydd heriau arbed ynni hefyd yn effeithio'n uniongyrchol ar awyru yn y gweithle (hanfodol ar gyfer rheoli peryglon iechyd) a hefyd rheolaeth legionella. Mae diwydiannau newydd, fel ailgylchu batris a gweithgynhyrchu deunyddiau ar gyfer inswleiddio sy'n darparu atebion o ran yr amgylchedd, yn cynyddu yng Nghymru, ond ni ddylai hyn fod ar draul iechyd y gweithwyr.

Addysg sy'n ein galluogi'n bennaf yng Nghymru i amddiffyn iechyd gweithwyr. Dydy gweithwyr ddim yn gallu dewis i osgoi'r risg o gael cancer na ellir ei wella yn y gweithle, er enghraifft, os nad ydym yn gwybod amdany'n nhw. Mae trosglwyddo negeseuon diogelu iechyd yn y gweithle yn y Gymraeg, y Saesneg ac ieithoedd eraill yn hollbwysig. Mae angen trosglwyddo negeseuon am iechyd y cyhoedd a phwysigrwydd addysg fel eu bod yn negeseuon ystyrlon yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad hwn gan un o elusennau gwyddonol annibynnol hynaf ac uchaf ei pharch ar ddiogelu iechyd yn y gweithle. Mae BOHS yn cwmpasu'r cyrff proffesiynol ym maes Hylendid Galwedigaethol (gwyddor amddiffyn sy'n cynnwys osgoi dod i gysylltiad â phob math o ddeunyddiau peryglus yn y gweithle, gan gynnwys dod i gysylltiad â deunyddiau cemegol, biolegol, radiolegol a ffisegol). Dyma'r corff proffesiynol hefyd ar gyfer gwyddoniaeth Asbestos. Mae'n cyflwyno tystiolaeth arbenigol na ellir ei hanwybyddu.

**Pam fod polisi
diogelu iechyd yn
y gweithle yn sail i
ddyfodol iechyd
yng Nghymru**

Mae Cymru, fel gweddill y DU, yn wynebu baich nad sy'n gynaliadwy ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol gyda heriau cynyddol yn y farchnad lafur, anweithgarwch cymdeithasol cynyddol a'r her o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol. Dim ond drwy leihau salwch sy'n arwain at greu galw cynyddol ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a lleihau salwch sy'n byrhau'r cyfnodau gweithio y gallwn ganfod ateb cynaliadwy i hyn oll. Salwch sy'n effeithio fwyaf yn aml ar y rhai sydd lleiaf abl i'w reoli

Mae'r gweithle yn ddieithriad yn amgylchedd a grëwyd gan bobl. Mae'r pethau rydyn ni'n ei gyflwyno i'r gweithle hwnnw yn fater o ddewis gan y bobl hynny. O ganlyniad mae modd i ni wedyn i atal hynny'n haws o fewn y gweithle. Trwy atal rhywun rhag dod i gysylltiad â sefyllfaoedd sy'n gallu arwain at afiechyd yn y gweithle, gallwn arbed costau iechyd galwedigaethol, ymestyn bywydau gwaith, cynyddu cyfraniadau trwy drethiant, lleihau costau budd-daliadau, arbed costau iechyd, arbed ar alwadau gofal cymdeithasol â thâl a lleihau'r angen am ofal cymdeithasol anffurfiol.

Hyd yn oed os byddwn ni'n anwybyddu'r budd o osgoi marwolaethau dibwrpas, y poen parhaus a'r poen meddwl a theuluoedd dan falltod a chymunedau yn cael eu llethu, mae'r achos economaidd yn hynod bwerus o ran gweithred. Er enghraifft, yn y Deyrnas Unedig, pe byddem yn haneru'r nifer yr achosion o ganser anadlol yn y gweithle, gallem wedyn ddyblu'r gwariant ar bob cancer ar gyfer y sector pediatrig. Yng Nghymru, yn seiliedig ar ddadansoddiad o ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, mae 7% o ddynion sy'n economaidd anweithgar a'r 13% o ferched, wedi dod i fod felly o ganlyniad i'r gwaith y maen nhw'n ei wneud. Mae ein cyd fethiant o ran diogelu iechyd yn y gweithle yn gwahaniaethu yn erbyn merched yn fethiant sefydliadol.

Mae'r 500 o farwolaethau cancer galwedigaethol bob blwyddyn yng Nghymru yn syfrdanol (amcan gyfrifiad gan HSE) yn fwy na chyfanswm nifer y marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau yng Nghymru. Mae salwch galwedigaethol yn sbardun yn ei dro ar gyfer materion iechyd cyhoeddus eraill, gyda chysylltiadau clir rhwng anweithgarwch a achosir gan salwch galwedigaethol a gordewdra a chamddefnyddio sylweddau. Mae cydberthynas uniongyrchol rhwng iechyd galwedigaethol a achosir gan sŵn a dementia. Mae'r boen a achosir gan anhwylderau cyhyr-ysgerbydol yn effeithio ar gwsg ac iechyd meddwl pobl. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at argyfwng ym maes iechyd galwedigaethol ac iechyd y cyhoedd y gyffredinol.

Er bod y pwyslais yn aml ar sut y gall gweithleoedd atgyfnerthu negeseuon iechyd cyhoeddus yn gyffredinol, gall lleihau dod i gysylltiad â deunyddiau a sylweddau peryglus yn y gweithle gael effaith fwy uniongyrchol a pharhaol ar iechyd yn gyffredinol. Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn treulio'r rhan fwyaf o'u bywydau yn gweithio. Yno y bydd eu hiechyd neu eu salwch hirdymor yn cael ei benderfynu. Dylai'r ffocws fod ar atal pobl rhag mynd yn sâl drwy iddyn nhw beidio dod i gysylltiad â deunyddiau neu sylweddau sy'n gallu niweidio ei iechyd yn y gweithle, a bod hynny wrth wraidd polisiâu iechyd Cymru. Ar hyn o bryd mae hyn ar goll o'r dogfennau polisi gan sbarduno'r galw am adnoddau prin a chreu etifeddiaeth o afiechyd ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Adroddiad hwn yn canolbwyntio ar sut a pham y gall Llywodraeth Cymru weithredu i achub bywydau.

**Pam y gall, y dylai
ac y mae'n rhaid i
Lywodraeth Cymru
weithredu i
ddiogelu iechyd
gweithwyr Cymru**

Mae'n gamsyniad bod diogelu iechyd yn y gweithle yn fater o reoleiddio lechyd a Diogelwch, ac felly wedi'i gadw i San Steffan a'r HSE. Mae'r mater hwn sy'n cael ei gadw yn ôl yn berthnasol i orfodi cyfraith a rheoliadau lechyd a Diogelwch. Fodd bynnag, fel y mae llywodraeth leol a chenedlaethol Cymru wedi'i ddangos dros y blynyddoedd diwethaf, gellir cyflawni llawer mwy na thrwy orfodi rheoleiddio yn unig. Mae'r dull presennol wedi methu ag atal baich clefydau galwedigaethol sy'n difetha bywydau Cymru. Mae angen dull blaengar, cynaliadwy a chyd cysylltiedig o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru i fynd i'r afael â'r argyfwng cynyddol hwn.

Wrth i Lywodraeth San Steffan geisio dirwyn y broses yn ôl ar reoleiddio iechyd yn y gweithle ac wrth i gyllid ar gyfer yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch beidio â chyfateb â'r galw ar ei adnoddau, mae effeithiolrwydd cyfraith ym maes lechyd a Diogelwch ym Mhrydain yn debygol o leihau. Os na chaiff effaith dadreoleiddio a llai o orfodi rheoleiddiol eu lliniaru gan strategaethau eraill, bydd iechyd yn y gweithle yn dioddef. Mae'r Adroddiad hwn yn ddadansoddiad systematig o ble y gall defnyddio pwerau datganoledig sydd wedi'u targedu effeithio'n gadarnhaol ar iechyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo drwy ddeddfwriaeth i sicrhau canlyniadau iechyd cadarnhaol ac i anelu at gyrraedd safonau rhyngwladol drwy fynd ar drywydd nodau datblygu cynaliadwy. Ar hyn o bryd, am bob 20 o bobl sydd mewn gwaith yng Nghymru, mae un person yn sâl o ganlyniad i'w gwaith. Mae cymhareb y rhai sy'n gweithio i'r rhai sydd angen cymorth trwy drethiant yn mynd yn llai. Mae'n rhesymol casglu o ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol bod dros hanner y rhai sy'n economaidd anweithgar oherwydd afiechyd wedi dod i'r amlwg oherwydd eu bod wedi bod yn agored i niwed o beryglon yn y gwaith. Dydy'r llwybr hwn ddim yn gynaliadwy.

Nod polisi presennol llywodraeth San Steffan yw dychwelyd pobl sâl i'r gwaith, ond nid yw hynny wedi'i seilio ar strategaeth i atal gweithwyr rhag cael salwch galwedigaethol yn y lle cyntaf. Mae'n anochel y bydd hyn yn arwain at bobl yn cael eu niweidio ymhellach yn y gweithle, a hefyd yn dargyfeirio adnoddau o atal afiechyd i fonitro a thriniaeth. Gall hyn ond arwain at ganlyniadau iechyd gwaeth yn y tymor hir. Nid dull o'r fath yw'r ffordd o greu gwaith cynaliadwy a gweddus fydd yn gosod pwyslais ar iechyd a lles o fewn ystyr y Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Mae'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol yn cydnabod yr hawl i amgylchedd gwaith iach. Mae ymrwymiad statudol Llywodraeth Cymru i hawliau dynol a nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn ei gwneud yn ofynnol iddi nawr ystyried sut y gall gyrraedd y safon honno. Nod yr Adroddiad hwn yw darparu dulliau ymarferol a fforddiadwy i Gymru i amddiffyn yr hawl honno.

Gwyddom drwy brofiad yn ystod cyfnod y pandemig sut y bu i Lywodraeth ddatganoledig Cymru ddefnyddio ei phwerau i ddarparu ffyrdd arloesol ac effeithiol o sicrhau gwell iechyd i bobl Cymru. Drwy feddwl y tu hwnt i'r ffiniau arferol sut y gall Cymru ddarparu atebion newydd i achub bywydau. Mae'r Adroddiad hwn yn gofyn i'r Prif Weinidog a Llywodraeth Cymru dderbyn yr her o droi'r llanw o afiechyd y gellir ei atal a achosir gan waith. Mae'r Adroddiad yn rhoi enghreifftiau penodol, fforddiadwy a chyraeddadwy o sut y gall Llywodraeth Cymru drawsnewid iechyd drwy waith.



Cadw Cymru'n Ddiogel rhag Asbestos

Mae bod yn agored i niwed o ganlyniad dod i gysylltiad ag asbestos yn arwain at fwy o farwolaethau o ganser galwedigaethol nag unrhyw achos arall. Yn ôl yr HSE, mae cyfradd y gostyngiad mewn marwolaethau yng Nghymru o ganlyniad i asbestos yn arafach nag yng ngweddill y DU. Mae dros 5,000 o adeiladau cyhoeddus yng Nghymru sy'n cynnwys llawer o ysgolion ac ysbytai, yn cynnwys asbestos. Mae hyn yn debygol o fod yn ffracsiwn bychan o'r holl adeiladau yng Nghymru sy'n cynnwys y sylwedd gwenwynig hwn.

Dylai holl Gyngorau Cymru allu cyfeirio unigolion a busnesau at ddulliau diogel a chyfreithlon o waredu a chael gwared ar asbestos. Fodd bynnag, dydy hyn ddim yn wir. Ar adeg paratoi'r Adroddiad hwn er enghraifft, yn ôl gwefan Cyngor Caerdydd, nid oedd unrhyw gontractwyr gwaredu asbestos trwyddedig yn gweithredu yn ardal Caerdydd, ond gellir dadlau bod ganddi gyfanswm sylweddol iawn o adeiladau sy'n cynnwys asbestos o fewn y wlad. Mae angen i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gwybodaeth gynhwysfawr, hygyrch, cywir a chyfredol ar gael sy'n galluogi cael gwared ar asbestos yn ddiogel. Bydd angen hefyd sicrhau bod arbenigedd ym maes trin a thrafod asbestos ar gael i bawb sy'n gofyn amdano.

Byddai'n ddymunol sicrhau bod cyfleusterau ar gael yng Nghymru gyfan i gael gwared ar asbestos yn ddiogel. Ar hyn o bryd, mae gwaredu asbestos sy'n gynnyrch heb ei drwyddedu yng Nghymru yn loteri cod post, gyda rhai Cyngorau'n darparu gwasanaeth casglu ac eraill ddim hyd yn oed yn darparu man gwaredu diogel yn lleol. Yn absenoldeb hyn, mae'n dod yn fwy tebygol y bydd asbestos yn cael ei waredu'n ddiogel ac yn achosi i asbestos i gael ei dipio anghyfreithlon a allai arwain at salwch a marwolaeth.

O'r adeiladau sydd angen eu huwchraddio i gyrraedd ein targedau newid hinsawdd, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn amcangyfrif bod 85% o'r adeiladau'n cynnwys asbestos. Mae hyn yn golygu bod cenhedlaeth o weithwyr sy'n ymwneud ag uwchraddio cartrefi a safleoedd busnes Cymru yn debygol o fod yn tarfu ar etifeddiaeth o asbestos. Mae llywodraeth Cymru mewn sefyllfa hollbwysig i arwain y DU drwy ddefnyddio ei phwerau i sicrhau eu bod yn ddiogel rhag dod i gysylltiad ag asbestos. Mae tair ffordd wahanol o wneud hyn sef drwy gyfrwng: Gwybodaeth, Addysg a Rheoleiddio Adeiladu.

Mae'n debyg nad yw'r mwyafrif o berchnogion adeiladau, gan gynnwys landlordiaid masnachol a phreifat, yn ymwybodol o asbestos cudd. Yn ôl y gyfraith, oni bai bod perchennog adeilad yn gwybod nad oes ganddo asbestos, yna dylai newidiadau sylweddol i adeilad gael arolwg adnewyddu. Dylid rhoi gwybod i berchnogion adeiladau y gallai gosod pypiau gwres, pŵer solar ac ailosod hen systemau gwresogi achosi aflonyddwch i asbestos. Mae'r rhain yn weithgareddau sy'n annhebygol o fod yn destun unrhyw graffu rheoleiddiol a gallan nhw achosi risg sylweddol i feddianwyr a'r rhai sy'n gwneud y gwaith o'u gosod mewn adeiladau. Mae angen i Lywodraeth Cymru weithredu i godi ymwybyddiaeth o broblem asbestos peryglus.

Yn gysylltiedig â hyn, mae angen addysgu gweithwyr, yn enwedig felly ar gyfer y gweithlu ynni gwyrdd er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r perygl a'u bod yn gallu adnabod a rheoli pob risg. Yng nghyd-destun ei dylanwad dros addysg, mae Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa unigryw i sicrhau bod y rheini yn y diwydiant adeiladu, trydan a gwresogi yn cael eu gwneud yn effeithiol ac yn gwbl ymwybodol o risgiau asbestos o fewn trefniadau hyfforddiant a phrentisiaethau. Trwy addysgu gweithwyr Cymru, bydd ganddyn nhw lawer gwell cyfle i osgoi dod i gysylltiad â deunyddiau a sylweddau sy'n peryglu bywyd.

Mae asbestos yn sylwedd gwenwynig sy'n fwy tebygol o gael ei aflonyddu yn ystod gwaith o ddymchwel neu adnewyddu adeiladwaith. Er bod dyletswydd gyfreithiol i gynnal arolwg pan fydd hyn yn digwydd, nid oes unrhyw fecanwaith i sicrhau bod hyn yn digwydd fel mater o drefn. Er mai dyma'r bygythiad mwyaf i iechyd pobl ym maes adeiladu, nid oes unrhyw sôn am asbestos yn y rheoliadau adeiladu. Mae gan Gymru y pŵer i'w gwneud hi'n ofynnol i geisiadau am ganiatâd adeiladu nodi lleoliad asbestos ar gyfer adeiladwaith sydd i'w ddymchwel neu ei adnewyddu neu y deuir ar e traws gyda thystiolaeth o absenoldeb asbestos. Bydd hyn yn diogelu perchnogion adeiladau, gweithwyr adeiladu proffesiynol ac arolygwyr adeiladu, yn ogystal â'r amgylchedd. Yn y modd hwn, gallai Cymru arwain y DU mewn ffordd bragmatig o sicrhau bod dyletswyddau presennol yn troi'n gamau ymarferol.

Ni ddylai Cymru adael i genedlaethau'r dyfodol orfod wynebu baich a chost asbestos. Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i weithredu i'w osgoi wedi'i gynnwys o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ddelfrydol, gallai cynllun asbestos cenedlaethol yng Nghymru arwain at weld dyfodol sy'n rhydd o ganser nad oes modd ei wella a'r baich o weld cannoedd o farwolaethau bob blwyddyn.



Arbed bywydau mewn adeiladu

Mae 10% o Gynnyrch Domestig Gros (GDP) Cymru yn dod o adeiladu. Mae gwaith adeiladu yn cyflogi 130,000 o weithwyr, sy'n cyfrif am dros 8% o'r gweithlu. Mae gweithio gyda charreg, chwarela a gwaith maen yn sectorau o arbenigedd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r diwydiannau hyn yn dueddol o ddod i gysylltiad â RCS (Respirable Crystalline Silica). Llŵch mân yw hwn sy'n cael ei greu drwy weithio gyda chraig, gweithio gyda chraig (fel arwynebau mewn cegin) a deunyddiau adeiladu fel brics, blociau a mortar.

Yn seiliedig ar ystadegau'r DU, bydd 250 o weithwyr adeiladu yng Nghymru yn cael diagnosis o ganser gan eu bod wedi dod i gysylltiad â deunyddiau yn y gweithle y gellir bod wedi'u hatal (175 o ganlyniad i asbestos, ond 45 o ganlyniad i RCS) ac y bydd 185 o weithwyr adeiladu yn marw yng Nghymru gan eu bod wedi dod i gysylltiad â deunyddiau y gellir bod wedi'u hatal yn y gweithle. Mae hyn yn fwy na holl ddamweiniau angheuol ym maes adeiladu yn y DU yn 2022.

Mae silica sydd wedi cael ei anadlu i mewn i'r ysgyfaint wedi difetha bywydau glowyr a chwarelwyr Cymru ers canrifoedd, gan achosi mathau o ganser na ellir eu trin, yn ogystal â bod yn un o brif achosion o anhwylder rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD). Amcangyfrifir bod gan Gymru bron i 7,000 o achosion o COPD o ganlyniad i'w gwaith. Mae hyn yn ei dro yn costio £65 miliwn y flwyddyn i Gymru. Er bod Cymru'n arwain y DU mewn ymarfer clinigol o COPD, nid yw hynny yn ei hun yn lleihau'r achosion o COPD, ond yn hytrach yn darparu ymateb proffesiynol iddo yn unig. Mae dod i gysylltiad â RCS fel yr achos sy'n arwain at ganser a COPD, yn rhywbeth y gellir ai atal yn gyfan gwbl ac mae gan Lywodraeth Cymru y gallu i ddylanwadu'n sylweddol ar hyn.


Gellir atal dod i gysylltiad â RCS yn rhad ac yn hawdd iawn - er enghraifft trwy ddefnyddio dŵr i atal llwch, sugnydd llwch yn lle brwsh ar gyfer glanhau a defnyddio offer dal llwch, yn hytrach na dibynnu ar fasnag. Fodd bynnag, mae'r mesurau ataliol hyn yn dibynnu ar weithwyr ym maes adeiladu i fod yn ymwybodol o'r risg sylweddol iddyn nhw eu hunain a'u bod yn ymddwyn yn unol â hynny.

Mae gan Lywodraeth Cymru gyfryngau pwerus i addysgu a dylanwadu ar ymddygiad y gweithlu adeiladu er mwyn gwella iechyd. Bydd Fframwaith Prentisiaethau Cymru mewn Adeiladu yn dylanwadu'n uniongyrchol ar genhedlaeth gyfan o weithwyr. Byddai cynnwys cydnabyddiaeth risg ar gyfer silica ac asbestos yn benodol, yn ogystal â sefydlu dulliau o arfer rheoli da, yn cyd-fynd yn dda â'r dull a ddefnyddir gan Sgiliau Adeiladu Cymru yn eu cymwysterau ar gyfer Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu. Cam pellach ymlaen o ystyried y risg i weithwyr a'r gost gymdeithasol fyddai asesu'n benodol allu'r gweithwyr i adnabod a defnyddio rheolaeth dda. Byddai hynny yn ei dro yn hybu gwell dealltwriaeth, agwedd ac ymddygiad.

Gall Llywodraeth Cymru hefyd gymryd camau arloesol i ddylanwadu ar y newid yn yr hinsawdd, gwastraff, ynni a chreu amodau RCS ar safleoedd adeiladu. Mae llawer o waith adeiladu bach yng Nghymru yn ymwneud ag adeiladu estyniadau i dai. Mae'r rheolau cynllunio presennol yn defnyddio mesurau pellter crwn i gyfyngu ar estyniadau datblygu a ganiateir, fel estyniadau 1m cam yn ôl, estyniadau 3m ac estyniadau 6m. Mae tuedd ddealladwy gan berchnogion tai a phenseiri i adeiladu i'r pellter mwyaf a ganiateir.

Fodd bynnag, gan ddefnyddio unedau gwaith maen nodweddiadol, fel brics cyffredin, gan ddilyn arfer adeiladu da mae'n amhosibl cyflawni'r hydoedd hyn heb dorri o leiaf un fricsen fesul cwrs, ar bob ochr i estyniad. Bydd estyniad cyffredin yn cynnwys 100 cwrs o frics. Bydd hyn yn arwain at dorri 200-300 o frics fesul prosiect. Byddai hynny'n creu hyd at ½ tunnelli o wastraff a bod llawer iawn o ynni wedi cael ei wastraffu mewn brics na chafodd eu defnyddio, yr ynni wrth dorri'r brics a hefyd y cynnydd o ran y risg o ganser neu COPD i'r gweithwyr.

Drwy ddiwygio cynllunio yng Nghymru fyddai'n defnyddio'r hyd sy'n cyd-fynd â dimensiynau'r cynllun ar gyfer arfer da mewn gwaith brics (e.e. drwy symud o 3m i 3,185cm mewn canllawiau cynllunio), gallai llywodraeth Cymru achub bywydau, arian a'r amgylchedd drwy wneud un newid yn unig.



Diogelu lechyd Gweithwyr Amaethyddol

Mae Cymru i'w chanmol yn gyntaf am gefnogi ei diwydiant ffermio drwy fabwysiadu camau i hyrwyddo iechyd a diogelwch gweithwyr fferm. Ac yn ail, eu hymrwymiad i addysg iechyd a diogelwch o fewn Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Fodd bynnag, nid yw'r cyntaf yn rhoi unrhyw ffocws ar iechyd corfforol. Mae'r llywodraeth yn llygad ei lle yn cymryd iechyd meddwl mewn amaethyddiaeth o ddifri. Yn ôl yr astudiaeth ymchwil fwyaf erioed ar afiechyd mewn amaethyddiaeth yng Nghymru a Lloegr (2022) roedd afiechyd meddwl yn effeithio ar 31% o'r ymatebwyr. Fodd bynnag, nododd mwy na hanner y 15,000 o ymatebwyr bod ganddyn nhw broblemau gyda phoen. Fe nodwyd bod anhwylderau Cyhyr-ysgerbydol (Musculo-skeletal disorders), dirgryniad llaw-braich ac achosion eraill o anghysur corfforol ar lefel fyddai'n cael ei gyfrif fel ei fod ar lefel epidemig o fewn ffermio. Mae poen cronig a chysylltiad cryf â straen a materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl. Mae hefyd yn aml yn arwydd o anhwylderau iechyd hirdymor posibl sy'n gallu byrhau bywyd a gwaith a chreu dibyniaeth yn ystod y blynyddoedd dilynol.

Dylai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ganolbwyntio ar ddatblygu arferion gwaith sy'n gwella ergonomeg gweithio ar y fferm, helpu ffermwyr i nodi achosion o anhwylderau cyhyr-ysgerbydol posibl a darparu ffocws ar boen fel achos straen a phroblemau iechyd meddwl ymhlith gweithwyr fferm. Wrth gwrs, mae llawer o achosion arwyddocaol eraill o afiechyd ym myd ffermio. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â dod i gysylltiad â llwch (sy'n achosi nifer sylweddol o achosion o salwch anadlol) a pheryglon biolegol, heb sôn am beryglon asbestos. Trwy gyfrwng addysg, gwybodaeth a chymorth iechyd, gall Llywodraeth Cymru helpu i gynnal ac ehangu ffermio yng Nghymru.

**Beth yw BOHS a
sut y gall BOHS
helpu?**

Mae Cymdeithas Hylendid Galwedigaethol Prydain (BOHS) a'i dwy Gyfadran (y Gyfadran Hylendid Galwedigaethol a'r Gyfadran Asesu a Rheoli Asbestos) yn elusen wyddonol. Mae'n cael ei harwain a'i hariannu gan wirfoddolwyr a thrwy waith y maen nhw'n wneud fel corff dyfarnu, cyhoeddwr a thrwy danysgrifiad aelodaeth.

Ers 70 mlynedd, mae wedi dod â gwyddonwyr, academyddion, arbenigwyr o'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, gweithwyr proffesiynol a chlinigwyr ynghyd i ddarparu arweiniad technegol yn rhad ac am ddim, deunyddiau hyfforddi, cynnal seminarau / gweminarau am ddim a chymorth i atal afiechyd yn y gweithle. Cyn yr HSE, gosododd BOHS derfynau penodol o ran dod i gysylltiad â sylweddau fel asbestos yn y gweithle. Mae adnoddau gan BOHS fel Its Breathe Freely <https://breathefreely.org.uk> yn darparu adnoddau di-dâl ar gyfer cadw'n iach ym maes adeiladu ar gyfer brif wledydd y byd lle siaredir Saesneg.

Mae BOHS wedi ymrwymo i wireddu'r weledigaeth lle nad yw'r gweithle yn rheswm arwyddocaol o ran achosi afiechyd. Mae'n barod i gefnogi'r gwaith o ddarparu, datblygu a darparu deunyddiau a chynnig arbenigedd i gefnogi Cymru yn ei brwydr yn erbyn salwch yn y gweithle. Gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau a phobl Cymru, rydym am wneud gwahaniaeth ac yn credu, trwy well dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth, y gallwn helpu i achub bywydau yng Nghymru.